Hawdd ei ddeall

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Gweithio wythnos fyrrach

Adroddiad am beth rydyn ni'n meddwl sydd angen ei wneud

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Dyfodol Addas i Gymru: wythnos waith fyrrach i bawb (canfyddiadau a negeseuon allweddol)**'.

Mehefin 2021

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r geiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 7**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni,** mae hyn yn meddwl **Sophie Howe, Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Cyfeiriad: Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1A

Gwefan: www.cenedlaethaurdyfodol.cymru

E-bost: cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

Ffon: 02921 677 400

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad.....4

Geiriau anodd.....7

Cyflwyniad

Fy enw i ydy Sophie Howe. Fi ydy **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**. Fy ngwaith i ydy edrych ar ôl **cenedlaethau'r dyfodol**.

Cenedlaethau'r dyfodol ydy'r bobl fydd yn byw yng Nghymru yn y dyfodol.

Rydyn ni'n meddwl bod wythnos waith fyrrach yn gallu cael llawer o fanteision i Gymru.

Er mwyn i hyn ddigwydd rydyn ni'n meddwl bod angen gwneud 3 peth:

1. Rhoi cynnig ar wythnos waith fyrrach mewn rhai swyddi yn y sector cyhoeddus.

Mae'r **sector cyhoeddus** yn meddwl pethau fel ysbytai, ysgolion a gwasanaethau sydd yn cael eu rhedeg gan y llywodraeth ac awdurdodau lleol.

Fe fyddai hyn yn:

- Creu llawer o swyddi newydd

- Costio dim ond swm bach o beth rydyn ni'n ei wario yng Nghymru yn gyffredinol.

- Helpu i leihau staff sydd i ffwrdd o'u gwaith oherwydd eu bod nhw'n sâl yn y GIG.

2. Gofyn i fusnesau hefyd roi cynnig ar oriau byrrach.

- Mae grŵp yn gallu cael ei sefydlu lle mae busnesau, **undebau llafur** a gwleidyddion yn gweithio gyda'i gilydd i siarad am wythnos waith fyrrach.

Undeb llafur ydy corff sydd yn ceisio gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn cael eu trin yn dda gan eu cyflogwyr.

Mae astudiaethau yn dangos bod y rhan fwyaf o gwmnïau yng Nghymru yn gallu fforddio i wneud hynny.

3. Gweithio gydag undebau llafur i'w helpu nhw i siarad gyda busnesau am weithio wythnos fyrrach.

- Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn cael dweud beth maen nhw'n feddwl am yr wythnos waith fyrrach.

- Mae **undebau llafur** yn chwarae rhan bwysig mewn gwneud newidiadau.

Beth mae pobl wedi ei ddweud wrthyn ni:

- Mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn meddwl bod wythnos waith fyrrach yn syniad da. Ac fe fydd yn helpu pobl i gael mwy o gydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

- Fe wnaeth ychydig dros hanner y bobl ddweud wrthyn ni eu bod yn meddwl bod rhoi cynnig arno yn syniad da.

- Fe wnaeth mwy na hanner pobl Cymru ddweud y bydden nhw'n hoffi gweithio 4 diwrnod yr wythnos neu lai.

Geiriau anodd

Sector cyhoeddus

Mae'r sector cyhoeddus yn meddwl pethau fel ysbytai, ysgolion a gwasanaethau sydd yn cael eu rhedeg gan y llywodraeth ac awdurdodau lleol.

Undebau llafur

Corff ydy undeb llafur sydd yn ceisio gwneud yn siŵr bod gweithwyr yn cael eu trin yn dda gan eu cyflogwyr.